# Cronfeydd Sir y Fflint

**Meini Prawf Cyllid: Unigolion**

Sefydliad Cymunedol Cymru

## Cronfa Gwaddol Cymunedol Sir y Fflint

Mae Cronfa Waddol Cymunedol Sir y Fflint yn cefnogi:

- Prosiectau cyrhaeddiad addysgol gan gynnwys dysgu gydol oes
- Prosiectau cynhwysiant addysg ar gyfer myfyrwyr unigol ar ffurf bwrsariaethau, cymorth teithio, chwaraeon, gwobrau am gyrhaeddiad a deunyddiau addysgol neu adnoddau eraill.

## Grantiau ar gael

Gall unigolion wneud cais am grant blynyddol o hyd at £200.

## Pwy all wneud cais?

Gall unigolion hyd at a chan gynnwys 25 oed sy'n byw ar hyn o bryd yn ardal Awdurdod Lleol Sir y Fflint, ar yr amod nad yw'r mentrau yn dod o fewn darpariaeth statudol wneud cais am grant blynyddol.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos yn union sut y byddant yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi derbyn cefnogaeth gan y Gronfa hon o'r blaen.




## Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan.
Sylwer:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

# Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i unigolion allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu dros y tymor hir. Mae Cronfa Sir y Fflint bellach yn cynnig cyfle i unigolion wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at 3 blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid 1 flwyddyn ar gyfer prosiectau neu eitemau cyfalaf bach.
Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio’n well gyda phobl a cymunedau a gyda’i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw’n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae’u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai’ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau’n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.